



Clwb Blasu

Fel rhan o waith eu BAC mae pedwar aelod o'r chweched dosbarth yn rhedeg clwb ar ôl ysgol i ddisgyblion blwyddyn 7. Byddwn yn hoffi rhoi'r cyfle i chi gael trio pethau newydd, ac gwneud ffrindiau newydd yn eich blwyddyn.

Bydd yna chwech wythnos o weithgareddau ar ôl ysgol am awr pob Dydd Gwener. Bydd yr wythnos cyntaf yn cael ei gynnal ar y 5ed o Hydref, lle y byddwn yn y Llyfrgell yn chwarae amrywiaeth o gemau bwrdd a gemau cardiau.

Bydd yr ail wythnos ar Hydref 12fed, lle y byddwn yn gwneud amrywiaeth gwahanol o chwaraeon cyffrous fel badminton, i chi gael cyfle i drïo chwaraeon newydd ac efallai y byddwch yn eu mwynhau ac eisïau cario mlaen.

Ar yr 19eg o Hydref byddwn yn cael y cyfle i chwarae amrywiaeth o offerynnau gwahanol ac hyd yn oed gwneud rhai newydd eich hunain.

Ar ôl gwyliau hanner tymor byddwn yn dechrau meddwl am y Nadolig ac yn rhoi y cyfle i chi wneud cerdyn Nadolig i rywun arbennig i chi. Bydd hyn yn cael ei gynnal yn yr ystafell Gelf ar y 9fed o Dachwedd. Ond byddwn yn gorfod gofyn i chi gyfrannu £1 i fynd a'ch cerdyn Nadolig adref oherwydd y gost o brynu'r adnoddau.

Ar Dachwedd 16eg byddwn yn gwneud cacennau themau'r nadolig lle byddech yn cael y dewis o wneud cacennau siocled neu fanila a'i addurno fel y dymunwch. Eto bydd angen i chi roi cyfraniad o £1 i fynd a'r cacennau adref.

Bydd yr wythnos olaf, ar Dachwedd 23ain yn wych gan ein bod yn mynd i wylïo film o'ch dewis chi, yn y neuadd ar y sgrin fawr. Bydd y weithgaredd yma yn parhau tan 5:30 yn wahanol i bob wythnos arall sydd yn gorffen am 4:30, felly bydd angen trefnu ffordd adref ar gyfer yr amseroedd yma.

Os hoffech gymryd rhan yn un o'r gweithgareddau yma yna byddwch angen bod yn un or 35 cyntaf i roi'r ffurflen yn ôl i mewn bob wythnos. Os a gymryd rhan yn y weithgaredd gyntaf rhwng eich enw a dosbarth cofrestru isod a gofyn i riant neu warchodwr arwyddo. Byddwn yn casglu rhain yn ôl yng nghefn y neuadd ar ddechrau amser egwyl dydd Mercher i gymeryd ffurflenni y 35 cyntaf i mewn.

Gweithgaredd 1: Gemau Bwrdd/Cardiau – 5/10/12

Bydd y weithgaredd yma rhwng 3.30 a 4.30, sicrhewch fod rhywun i godi eich plentyn i fyny o'r ysgol am 4.30 os gwelwch yn dda.

Enw:.....

Dosbarth:.....

Rhiant/ Gwarchodwr:.....